

Y Gymanfa Gyffredinol, Capel y Groes, Wrecsam, 9 – 11 Gorffennaf, 2018

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yr ydym wedi gwneud ymdrech i geisio sicrhau fod y Gymanfa Gyffredinol yn ymweld â gwahanol ardaloedd yng Nghymru, yn y gobaith y bydd hyn yn hybu perchnogaeth ag ymwybyddiaeth o waith ein Henwad yn genedlaethol.

Eleni, ar gais ein Llywydd presennol, y Parch. Brian Huw Jones, yr ydym yn cyfarfod yng Nghapel y Groes Wrecsam. Yn naturiol, yr ydym yn ddyledus i swyddogion yr eglwys am eu parodrydd i ganiatáu defnydd o'r adeilad, ac yn edrych ymlaen i fod yn un o'n hadeiladau mwyaf modern.

Mae'r Gymanfa yn arwyddo diwedd blwyddyn ein Llywydd, ac yn gychwyn ar dymor newydd. Mi fydd y Parch Brian Huw Jones yn cyflwyno ei anerchiad wrth ymadael â'r gadair nos Fawrth am 7.30 y.h., ac ar yr un pryd yn arwisgo ein Llywydd newydd, y Parch Brian Mathews.

Gweddïwch dros y ddau wrth iddynt baratoi at y tridiau. O ran yr oedfaon cyhoeddus eraill, cynhelir:

- oedfa gymun a choffâd nos Lun pryd daw'r Parch Ian Sims i bregethu'r gair.
- Fore Mawrth am 11.45, cynhelir y Ddarlith Davies, gyda'r Parch Wyn Morris yn mynd a ni fydd *'Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed.Ganrif'*.
- Yna am 11.45 fore Mercher, mi fydd Dr Gethin Mathews yn cyflwyno darlith y Gymdeithas Hanes - *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels*.
- Yn ychwanegol eleni, ac yn dilyn marwolaeth y Dr Billy Graham, mi fydd un o'i gydweithwyr ac un sydd wedi pregethu yn y Gymanfa yn y gorffennol, y Parch Dr Robert Cunville, yn dod i siarad am 'gymeriad a chyfraniad Billy Graham', brynhawn Mawrth am 3.00.

Mae'n siŵr y byddwch am weddio dros bob un o'r rhain, a gweddio hefyd dros y Parch Llunos Gordon, Caplan y Gymanfa eleni.

O ran y prif faterion sydd i'w trafod:

- mi fydd argymhelliad i roi mwy o fanylder yn y Llawlyfr Trefn a Rheolau wrth ystyried cyfrifoldebau Henaduriaethau, Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr ag adran ar 'Neilltuo i weinidogaeth'.
- Mi fyddwn hefyd yn ystyried sut mae ymateb i'r adroddiad ariannol blynyddol, ymateb i'r rheolau newydd ar ddiogelu data personol, yn cael clywed am waith ein Canolfannau, ac am gynlluniau gweinidogaeth a chenhadaeth ein Henaduriaethau.

Cofiwch fod gwahoddiad i bob gweinidog a blaenor i bob un o'r sesiynau, a gwahoddiad i unrhyw un i'r oedfaon cyhoeddus.